**LC1138**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

Mae'r Rheoliadau yma'n disodli Rheoliadau Addysg (Llywodraethu Ysgolion) (Cymru) 1999 (fel y'u diwygiwyd) ac yn darparu fframwaith newydd y bydd cyrff llywodraethu yn gweithredu ac yn cynnal eu busnes ynddo.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol gyfle i ystyried drafftiau cynharach o'r Rheoliadau yma. O ganlyniad i hynny, mae'r pwyntiau adrodd posibl wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft cyfredol a does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Heblaw rheoliadau 2(2) a 38 ac Atodlen 6 sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2006, mae'r Rheoliadau'n dod i rym ar 31 Hydref 2005, sef yr un dyddiad y deuir â rhai o'r pwerau galluogi y cyfeiriwyd atyn nhw, hynny yw adrannau 19(2) a (3), 20(2) a (3) a 23 o Ddeddf Addysg 2002 i rym gan Orchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005. Mae'r pwerau galluogi eraill, hynny yw adrannau 21(3), 210(7) a 214(1) a (2), mewn grym yn barod.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**11 Hydref 2005**